# Afancod yng Nghymru

## Adnodd Dysgu





PROSIECT
**AFANCOD CYMRU**

**WELSH BEAVER**
PROJECT

Wildlife Trusts
**Wales**
Ymddiriedolaethau Natur
**Cymru**

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Mae'r adnodd dysgu Afancod yng Nghymru wedi'i gynhyrchu gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of South & West Wales

Ymddiriedolaeth Natur Gwent
Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn
Montgomeryshire Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed
Radnorshire Wildlife Trust

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

PROSIECT AFANCOD CYMRU
WELSH BEAVER PROJECT

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid drwy Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 – Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru, sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig a Llywodraeth Cymru.

**Rhagair gan Iolo Williams**

Mae afancod yn anifeiliaid gwirioneddol anhygoel. Gallant helpu i adfer a rheoli cynefinoedd afonydd a chorsydd ar gyfer amrywiaeth enfawr o fywyd gwyllt, ac oherwydd eu bod yn gallu helpu i fynd i'r afael â materion pwysig fel lleihau llifogydd i lawr yr afon, maent yn wych ar gyfer pobl hefyd. Mae bywyd gwyllt Cymru dan fygythiad difrifol ac rydym mewn perygl o golli rhai rhywogaethau yn gyfan gwbl, felly mae afancod yn elfen hanfodol a allai helpu i wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth yn ein cefn gwlad.

Mae afancod yn enghraifft wych o'r cysylltiad sydd rhwng popeth ym myd natur a gellir ymgorffori eu hastudiaeth mewn llawer o bynciau yn y cwricwlwm. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd pob plentyn yn mwynhau dysgu am afancod a'r gwaith gwych y maent yn ei wneud gan ddefnyddio'r pecyn addysg Afancod yng Nghymru hwn.

*Iolo Williams*





Naturiaethwr a darlledwr
© IOLO WILLIAMS



Afancod Cors Dyfi
© EMYR EVANS

Iolo Williams yn rhyddhau afancod yng ngwarchodfa Natur Cors Dyfi, ar ran Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn.

## Cyflwyniad

Mae'r afanc Ewrasiaidd (Castor fiber) yn frodorol i Gymru gyda dosbarthiad sy'n ymestyn ar draws Prydain i Ewrop ac i Asia. Diflannodd afancod yng Nghymru tua'r Oesoedd Canol oherwydd gor-hela gan fodau dynol, yn bennaf oherwydd eu cig, ffwr a chwarennau arogl. Roedd hyn yn gyffredin ar draws Prydain ac Ewrop, ac erbyn 1900 dim ond llond dwrn o afancod oedd ar ôl mewn chwe phoblogaeth fechan ar y cyfandir. Fodd bynnag, ers y 1920au mae afancod wedi cael eu hailgyflwyno i dros 25 o wledydd Ewropeaidd, gyda'r ailgyflwyno diweddaraf wedi digwydd yn yr Alban a Lloegr.

Mae afancod yn chwarae rhan hanfodol mewn cyfoethogi bioamrywiaeth oherwydd bod eu gweithgareddau yn adfer ac yn rheoli cynefinoedd afonydd a chorsydd. Fe'u gelwir yn aml yn 'rhywogaeth allweddol' oherwydd eu bod o fudd i ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid. Gallant hefyd fod o fudd i bobl oherwydd bod eu gweithgareddau yn gwella ansawdd dŵr, yn rheoli llif, yn lleddfu llifogydd i lawr yr afon, yn sefydlogi lefelau trwythiad ac yn lleihau erydiad mewn afonydd.



Cors Dyfi beavers
© EMYR EVANS

Dyma rai o'r rhesymau pam mae cael afancod yn ôl yn y gwyllt yng Nghymru mor bwysig.

Mae Prosiect Afancod Cymru a arweinir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru yn arwain y gwaith o ailsefydlu afancod yn ôl i'r gwyllt yng Nghymru.

Mae adnodd dysgu Afancod yng Nghymru wedi'i gynllunio fel y gellir defnyddio afancod Ewrasiaidd i addysgu ar draws pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad o fewn y cwricwlwm.

Gobeithir yn fawr y bydd athrawon ledled Cymru a thu hwnt yn gweld yr adnodd addysgu yn fuddiol, yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i'r dysgwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am afancod ar gael ar dudalen we Prosiect Afancod Cymru:

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject

## Cysylltiadau â Chwricwlwm i Gymru

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn dysgu hwn yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys disgrifiadau dysgu, yn amlygu'r meysydd dysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru ac yn berthnasol i gamau cynnydd 2-3.

Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a rhoi cyfle i ddatrys problemau, cydweithio, cyfathrebu, meddwl yn greadigol, meddwl yn feirniadol ac ymchwilio'n annibynnol. Maent yn cynnwys cwestiynau o ansawdd uchel i wella medrau meddwl lefel uwch dysgwyr ac arwain at drafodaeth.

Mae'r pecyn yn ymgorffori sgiliau trawsgwricwlaidd y fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd a Chymhwysedd Digidol ac mae'r gweithgareddau'n cyflawni gofynion dysgu ac addysgu da, yn unol â'r 12 egwyddor addysgegol.

Mae'r pecyn yn cysylltu â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae parchu a gwarchod ein tirweddau a'n bywyd gwyllt yn rhan annatod o sicrhau Cymru fwy cynaliadwy, teg a llewyrchus.

Mae natur yn chwarae rhan hanfodol wrth frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, a gall afancod gyfrannu at adfer amrywiaeth cynefinoedd mewn coetiroedd ar lannau afonydd. Yn ogystal â dod ag ecosystemau'n fyw trwy greu a rheoli corsydd, gall afancod hefyd helpu i leihau llifogydd a glanhau dŵr afonydd.

Mae pwyslais ar ddysgu yn yr awyr agored mewn sawl gweithgaredd, gan ganolbwyntio ar wella lles, gweithgaredd corfforol a datblygu gwerthfawrogiad o gyfoeth byd natur yng Nghymru.

Mae'n bosib addasu neu ehangu ar y gweithgareddau i ateb anghenion dysgwyr unigol neu ddosbarth.

# Gweithgaredd 1

## Beth ydych chi'n ei wybod am afancod?

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn rhannu eu gwybodaeth gyfredol am afancod ac yn ystyried meysydd ar gyfer dysgu ac archwilio pellach.

Cyfleoedd i ddysgwyr:

- Ddwyn i gof gwybodaeth flaenorol am afancod
- Ystyried beth hoffent ei ddysgu am afancod
- Myfyrio ar yr hyn y maent yn ei ddysgu am afancod dros amser.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Dyniaethau** | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. |
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Tegan meddal/llun o afanc
- Bocs/bag
- Adnodd 1 – Grid GED
- Adnodd 2 – Cysylltiadau



### Geirfa

Afanc
Gwâl (*Lodge*)
Argae
Cyfnosol
Cnofilod



### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Beth ydych chi'n ei wybod am afancod? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn? Beth hoffech chi ei ddarganfod?
Sut mae afanc yn wahanol i anifeiliaid eraill? Pam ydych chi'n credu hynny?

### Gweithgaredd

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn astudio anifail pwysig a diddorol iawn. Cuddiwch lun/degan meddal o afanc mewn bocs/bag. Heriwch y dysgwyr i ofyn cwestiynau i ddyfalu pa anifail ydyw.

Pan fydd y dysgwyr wedi dyfalu'n gywir, rhannwch gopi o **Adnodd 1** neu gofynnwch i'r dysgwyr greu eu grid eu hunain yn eu llyfrau. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu beth maen nhw'n ei wybod am afancod yn y golofn **G**.

Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod beth yr hoffent ei ddysgu am afancod. Ewch ati i annog y dysgwyr i ysgrifennu unrhyw gwestiynau penodol sydd ganddynt am afancod yng ngholofn **E**.

Gofynnwch i'r dosbarth ystyried ble neu sut y gallant ddod o hyd i ragor o wybodaeth am afancod.

Heriwch y dosbarth i ddefnyddio eu sgiliau ymchwil annibynnol i ddarganfod ffaith ddiddorol am afancod i'w rhannu. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn chwilio'r rhyngrwyd yn effeithiol, efallai y byddwch am eu hatgoffa sut i ddefnyddio geiriau allweddol, y gweithredwr minws a dyfynodau fel strategaethau chwilio effeithiol. Efallai y byddwch hefyd am annog dysgwyr i ddefnyddio peiriant chwilio penodol.

Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw eisoes wedi darganfod yr ateb i unrhyw un o'u cwestiynau yng ngholofn **E**. Atgoffwch y dysgwyr i ailymweld â'u grid i ysgrifennu crynodeb o'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yng ngholofn **D** yn ystod unrhyw weithgareddau pellach.

### Gweithgaredd Ychwanegol

Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth allai fod yn gyffredin rhwng afanc a'r anifeiliaid/eitemau ar **Adnodd 2**. Pam fod y dysgwyr yn credu hyn? Efallai yr hoffech chi gwestiynu unrhyw gamsyniadau neu roi cyfle i ddysgwyr drafod eu syniadau.

# Gweithgaredd 2
## Creu Afanc

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn creu masgiau/hetiau afancod, yn cymryd rhan mewn chwarae rôl ac yn dysgu am yr addasiadau corfforol ac ymddygiadol trawiadol sy'n helpu afancod i oroesi yn eu hamgylchedd.

Cyfleoedd i ddysgwyr:

- Adnabod nodweddion ffisegol, ymddygiadol a chynefin afanc
- Ystyried sut mae afanc wedi addasu i'w amgylchedd
- Defnyddio ystod o ddeunyddiau yn greadigol i ddylunio a chreu eu mwgwd/coron eu hunain

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru


| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. |
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Adnodd 3, 4 a 5
- Ffedogau
- Cardbord
- Glud
- Styffylwr/Staplwr
- Paent a brwshys
- Llinyn neu wlan
- Cerpiau o ffabrig
- ... unrhyw ddeunyddiau eraill wedi'u hailgylchu

### Geirfa

Addasiad
Cynefin
Dannedd
Dyfrol
Amgylchedd
Nodweddion





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Pa addasiadau sydd gan afancod sy'n eu helpu i oroesi yn eu hamgylchedd?
Beth mae afancod yn ei fwyta? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wella? Beth ellid ei newid?

### Gweithgaredd

Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i wahanol fathau o fygydau. Beth maent yn ei hoffi neu nad ydynt yn ei hoffi am y masgiau? Eglurwch eu bod am greu masgiau afancod eu hunain a thrafodwch eu syniadau.

Cyn iddynt ddechrau dylunio eu masgiau, rhowch gyfle i'r dysgwyr i ymchwilio ac adnabod gwahanol rannau o gorff afancod.

Gall dysgwyr greu masg sy'n dangos pen afanc (gweler **Adnodd 3**) neu efallai y byddan nhw'n dymuno creu coron neu het (gweler **Adnodd 4** a **5**). Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dewis defnyddio'r adnoddau a ddarperir, fodd bynnag, dylid annog dysgwyr i ddylunio a gwneud eu mwgwd eu hunain, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau sydd ar gael. Ceisiwch annog y dysgwyr i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu fel cardfwrdd neu decstilau wedi'u hadfer.

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cwblhau eu masgiau, dewiswch ddysgwyr unigol i ddod i flaen y dosbarth i gael eu holi yn y "gadair goch." Ewch ati i annog y dosbarth i ofyn cwestiynau, ac i wrando ar yr ymatebion. Trafodwch yr addasiadau sydd gan afancod ar gyfer byw ar dir ac mewn dŵr, e.e. traed ôl gweog a chynffon fawr gennog fflat sy'n eu helpu i nofio.

Rhowch gyfle i'r dysgwyr fynd allan gyda'u masgiau. Heriwch y dysgwyr i ddod o hyd i'r cynefin mwyaf addas ar gyfer afancod o fewn lleoliad tir yr ysgol, gan ofyn iddynt esbonio pam.

Caniatewch amser i'r dysgwyr fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Beth oedden nhw'n ei hoffi am eu masg? Sut y gellid ei wella?

### Gweithgaredd Ychwanegol

Cefnogwch y dysgwyr i roi tâp dwy ochr ar hyd ochrau eu coron neu fasg, cyn mynd allan i fwynhau taith gerdded ar dir yr ysgol neu i barc neu goetir cyfagos. Anogwch y dysgwyr i addurno eu masgiau trwy ychwanegu dail, perlysiau, brigau neu risgl a allai fod yn rhan o ddiet afanc ar y tâp gludiog wrth iddynt fynd o amgylch.

# Gweithgaredd 3
## Afancod yng Nghymru

Yn y gweithgaredd dysgu hwn sy'n seiliedig ar dasg, bydd dysgwyr yn casglu gwybodaeth ac yn creu cyflwyniad am afancod i'w rannu â grŵp, dosbarth neu o fewn gwasanaeth ysgol.

Cyfleoedd i ddysgwyr:
- Datblygu, trefnu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- Dod o hyd i, dewis a defnyddio gwybodaeth, gan ymateb i'r hyn a ddarllenwyd
- Mynegi eu hunain at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru


| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Adnodd 6 - 12
- PowerPoint/Keynote (dewisol)

### Geirfa

Tiriogaeth
Llysysydd
Cyfnosol
Mamal
Rhywogaeth
Cyflwyniad





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Beth sy'n gwneud cyflwyniad da? Pam?
Beth ydych chi eisiau i eraill ei wybod? Sut byddwch chi'n ymgysylltu â'ch cynulleidfa? Sut ydych chi'n mynd i wneud eich cyflwyniad yn ddiddorol?

### Gweithgaredd

Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau bach o 3 neu 4. Bydd pob grŵp yn gweithio ar un agwedd ar gyflwyniad am Afancod yng Nghymru. Efallai y bydd y dysgwyr am ddefnyddio'r penawdau a ddarperir yn y taflenni adnoddau (**Adnodd 6 – 12**), neu gallech adael i'r dosbarth benderfynu ar benawdau drostynt eu hunain, e.e. ymddangosiad, nodweddion, cynefin naturiol, diet, ffeithiau diddorol...

Trafodwch beth sy'n gwneud cyflwyniad da a pha mor hir y dylai fod (e.e. hyd at funud i bob grŵp). A fyddant yn defnyddio meddalwedd cyflwyno, e.e. PowerPoint/ Keynote? Trafodwch y prif gamau mewn cyflwyniad - cyfarch, cyflwyno, prif bwyntiau yn nhrefn pwysigrwydd, casgliad. Penderfynwch ar gyfrifoldebau pob grŵp. Pwy sy'n mynd i ddweud beth a sut?

Gofynnwch i'r dysgwyr sut y byddant yn rhannu eu gwaith. A fyddant yn gwahodd dosbarth arall i ddod i weld y cyflwyniad, neu beth am gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol gyfan? A fyddan nhw'n gwisgo'u masgiau afancod wrth gyflwyno?

Darparwch amser i'r grwpiau ymchwilio, creu eu cyflwyniad a gweithio ar eu sgiliau cyflwyno. Gallant hefyd baratoi delweddau. Atgoffwch y dysgwyr y dylai'r cyflwyniad fod yn waith gwreiddiol eu hunain ac i fod yn ymwybodol o lên-ladrata. Gellir rhannu strategaethau ymchwil effeithiol ac atgoffa dysgwyr i ddyfynnu'n briodol os oes angen.

Unwaith y bydd yr holl grwpiau wedi cwblhau eu paratoadau, gall y dosbarth cyfan weithio gyda'i gilydd i benderfynu ym mha drefn y bydd y cyflwyniad yn cael ei rannu.

Ar ôl y cyflwyniad dosbarth cyfan, rhowch gyfle i'r dysgwyr i gynnig sylwadau adeiladol am eu cyflwyniad. Oedden nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd? Wnaethon nhw ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth am afancod? Wnaethon nhw ddefnyddio ystum corff a chyswllt llygad effeithiol? Oedden nhw'n cyfathrebu'n glir?

### Gweithgaredd Ychwanegol

Cefnogwch y dysgwyr i greu cwis am afancod, yn gysylltiedig â'u cyflwyniad. Efallai y byddant yn dewis creu gêm ar y wê, e.e. Kahoot! neu iaith codio fel Scratch/Scratch Jr i raglennu eu cwis rhyngweithiol eu hunain. Efallai y byddan nhw'n dymuno rhannu'r cwis gyda'r gynulleidfa ar ddiwedd eu cyflwyniad.

# Gweithgaredd 4

## Peirianwyr Natur - Her Creu Argae Afanc

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn creu argae afancod, gan ddefnyddio detholiad o frigau, toriadau gwrychoedd a dail.

Cyfleoedd i ddysgwyr:

- Dysgu am gynefinoedd afancod
- Gweithio fel rhan o grŵp
- Adnabod bod cysylltiadau rhwng natur, newid hinsawdd a gweithgaredd dynol

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Dyniaethau** | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. |
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. |

### Adnoddau

- Ardal ddysgu awyr agored
- Boncyffion/Canghennau
- Conau pinwydd
- Cerrig/ Mwd
- Dail/Glaswellt/ planhigion/mwsogl
- Cynhwysydd hirsgwar bas
- Jwg/can dyfrio
- Adnodd 13 - Her Argae Afancod
- Stopcloc/amserydd

### Geirfa

Argae
Gwâl
Cynefin
Newid hinsawdd
Adeiladu
Sychder
Llifogydd





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Pam mae afancod yn adeiladu argaeau? Ble? Sut?
Pa mor dda mae eich argae yn dal dŵr? A allech chi ei wella?
Sut byddai glaw trwm yn effeithio ar gynefin afancod? Pam?

### Gweithgaredd

Mae afancod yn adeiladu argaeau i greu amodau byw lle cânt eu hamddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Mae argaeau'n arafu llif y dŵr ac yn creu pyllau sy'n ddelfrydol ar gyfer gwalau afancod. Mae argaeau hefyd yn helpu i liniaru llifogydd trwy arafu llif y dŵr.

Mewn grwpiau bach, heriwch y dysgwyr i roi eu sgiliau peirianneg ar waith trwy adeiladu eu hargae eu hunain. Rhannwch **Adnodd 13**. Yn ddelfrydol, dylid gwneud y gweithgaredd hwn y tu allan, ar dir yr ysgol neu yn yr ardal leol, e.e. parc/coedwig. Bydd angen i chi ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch eich ysgol mewn perthynas â'r gofod awyr agored y byddwch yn ei ddefnyddio.

Anogwch y dysgwyr i wneud argae drwy greu sianel yn y ddaear neu mewn cynhwysydd, e.e. drôr ysgol. Trafodwch fel dosbarth cyfan pa ddeunyddiau naturiol y gall afanc eu defnyddio i greu ei argae, a nodwch beth y gallai'r dysgwyr ei gasglu i adeiladu eu hargae afancod eu hunain.

Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr gasglu defnyddiau addas y tu allan i adeiladu eu hargae. Gan ddefnyddio eu defnyddiau, heriwch y dysgwyr i adeiladu argae ar draws eu cynhwysydd/sianel. Pa ddeunyddiau fyddan nhw'n eu defnyddio? Pam? A fyddan nhw'n defnyddo cymysgedd o adnoddau?

Rhowch gyfle i ddysgwyr brofi eu hargaeau. Anogwch nhw i ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau mewn gwahanol gyfuniadau i weld beth sy'n digwydd. Trafodwch beth fyddai'n digwydd mewn glaw trwm, pan fydd y dŵr yn llifo'n gyflym? Ceisiwch ychwanegu dŵr yn gyflymach neu'n arafach i'r argae i weld beth sy'n digwydd. Beth fyddai'n digwydd i bwll afancod pe bai sychder?

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a allai afancod fod yn ddefnyddiol yn eu hardal leol? Pam? Pe baent yn afancod, ble y byddent yn adeiladu eu hargae? Pam? A allant ddangos y lleoliad i chi ar blatfform mapio ar y we, e.e. Mapiau Google?

### Gweithgaredd Ychwanegol

Gall argae afancod wella ansawdd dŵr mewn rhai systemau dŵr. Heriwch y dysgwyr i ddefnyddio'u hadeiladwaith argae i lanhau dŵr? Gofynnwch iddyn nhw roi rhai dail yn eu dŵr a'u harllwys. Beth sy'n digwydd i'r dail/malurion? Pam?

# Gweithgaredd 5

## Gêm Fwrdd Afanc

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn creu ac yn chwarae gêm am afancod. Byddant yn dysgu am y peryglon a'r bygythiadau sy'n wynebu afancod ifanc wrth iddynt chwilio am diriogaeth newydd.

Cyfleoedd i ddysgwyr:

- Deall y peryglon a'r bygythiadau sy'n wynebu afancod
- Creu gêm hwyliog i'w chwarae gydag eraill
- Chwarae a gwerthuso gêm

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.<br>Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Adnodd 14 - Bwrdd gêm (Chwyddo i A3)
- Adnodd 15 - Cyfarwyddiadau
- Adnodd 16 - Cardiau Gweithgaredd
- Adnodd 17 - Cardiau gwag (Chwyddo i A3)
- Dis
- Cownteri
- Siswrn

### Geirfa

Tiriogaeth
Perygl
Bygythiad
Cynefin
Goroesi
Heriau





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Beth yw'r problemau a'r bygythiadau sy'n wynebu afancod ifanc?
Sut y gellid atal y peryglon hyn? Pam fyddai hyn yn gweithio?
A oes cynefinoedd afancod posibl yn ein cymuned? Ble?

### Gweithgaredd

Mae teulu afancod yn cynnwys tua phump i chwe anifail. Mae brodyr a chwiorydd iau fel arfer yn aros gyda'u rhieni am hyd at 2 flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn byddant yn dysgu sut i gasglu bwyd, adeiladu argaeau a helpu gyda gofal y rhai bach.

Mae'r problemau'n dechrau yn ddwy oed! Yn yr oedran hwn, mae'n rhaid i'r afancod adael tiriogaeth eu rhieni, a dechrau eu brwydr galed i oroesi. Mae afancod ifanc yn aml yn amharod i adael, ac yn gyson yn cael eu herlid i adael gan eu rhieni.

Oherwydd bod cynefinoedd wedi newid, gall afanc ifanc wynebu sawl her wrth geisio dod o hyd i gartref newydd. Efallai y bydd angen iddynt fynd trwy ddarnau diffaith o ddŵr cyn cyrraedd man addas. Gallant ddod ar draws perchnogion tir digroeso, neu hyd yn oed orsafoedd pŵer trydan-dŵr neu ffyrdd.

Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i'r peryglon y gall afancod ifanc eu hwynebu wrth symud allan i'r byd mawr.

Rhannwch **Adnodd 14, 15 a 17** gyda'r dysgwyr, a'u herio i greu cardiau eu hunain yn nodi enghreifftiau o fywyd afancod. Bydd angen iddynt greu 6 cherdyn positif a 10 cerdyn perygl. Efallai yr hoffech chi rannu'r enghreifftiau yn **Adnodd 16.**

Gall dysgwyr chwarae'r gêm, gan ddefnyddio eu cardiau. Dylent ddechrau wrth eu cartref, rholio'r dis a symud ar hyd y trac yn unol â hynny. Pan fyddan nhw'n glanio ar 'galon' neu 'ebychnod', bydd angen iddynt dynnu llun cerdyn cyfatebol, ei ddarllen yn uchel, a dilyn y cyfarwyddiadau. Gall pob chwaraewr benderfynu ar ei ffordd ei hun drwy system yr afon. Pwy bynnag sy'n cyrraedd y diwedd yn gyntaf, sy'n ennill.

### Gweithgaredd Ychwanegol

Yn eisiau: cartref newydd! Gofynnwch i'r dysgwyr greu hysbyseb ar gyfer cynefin afancod posibl. Efallai yr hoffent dynnu llun o'r cynefin a chynnwys disgrifiad i berswadio afanc i symud i mewn. A oes ardal addas yn lleol y gallant dynnu llun ohoni? Ceisiwch annog y dysgwyr i fod mor ddisgrifiadol ag y gallant.

# Gweithgaredd 6
## Ecosystem Afanc


Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn ystyried y rôl bwysig y gall afanc ei chwarae yn ei ecosystem ac yn darganfod sut mae popeth ym myd natur yn gysylltiedig.

Cyfleoedd i ddysgwyr:
- Archwilio cadwyni bwyd, gweoedd bwyd a chyfnewid egni
- Deall y cysyniad o gyd-ddibyniaeth bioamrywiaeth
- Deall sut mae afancod yn effeithio ar ecosystem

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Dyniaethau** | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |

Haul → Helyg → Afanc → Llwynog



### Adnoddau

- Man dysgu awyr agored neu neuadd fawr
- Llinyn
- Adnodd 18a a 18b
  - Cardiau Cysylltu (Chwyddo i A3)
- Ffyn neu sialc

### Geirfa

Organeb
Gwe bwyd
Ecosystem
Rhyngddibynnol
Llysysyddion
Cigysyddion
Hollysyddion
Dadgyfansoddwyr





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

O ble rydyn ni'n cael ein hegni? O ble mae afanc yn cael ei egni?
Beth yw ecosystem?
Sut mae tynnu afanc a'r amgylchedd yn effeithio ar yr ecosystem gyfan?

### Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn fwyaf addas y tu allan neu mewn neuadd fawr. Eglurwch fod pob cadwyn fwyd yn dechrau gyda'r haul. Mae planhigion gwyrdd yn defnyddio egni'r haul i wneud siwgr mewn proses a elwir yn ffotosynthesis. Gofynnwch i'r dysgwyr awgrymu cadwyn fwyd sy'n cynnwys afanc.

Rhannwch y dysgwyr yn grŵpiau o hyd at 15. Rhowch un cerdyn (o **Adnodd 18**) i bob dysgwr. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth ydyw a sut y byddai'n ymddwyn. Gofynnwch i bawb sy'n meddwl eu bod yn gynhyrchydd i godi eu llaw. Nesaf, gofynnwch i'r rhai sy'n ddefnyddwyr cynradd/llysysyddion godi eu dwylo, ac yna defnyddwyr eilaidd/cigysyddion a phrif ysglyfaethwyr. Heriwch bob grŵp i ddod at ei gilydd i wneud cadwyn fwyd gyflawn gan ddefnyddio 3/4 cerdyn.

Nesaf, gofynnwch i'r ddau grŵp ffurfio cylch mawr. Eglurwch fod ecosystem yn we ryng-gysylltiedig o bethau byw ac anfyw mewn ardal. Gan ddefnyddio llinyn, gofynnwch i'r dysgwyr greu cysylltiadau perthnasol: beth fyddai eu hanifail yn ei fwyta? Pwy fyddai'n eu bwyta? Sut maen nhw'n gysylltiedig? Dylai'r dysgwyr egluro'r cysylltiad, ac os yw'r grŵp yn cytuno, pasio'r llinyn ymlaen.

Unwaith y bydd pawb wedi'u cysylltu yn y we fwyd, tynnwch anifail oddi yno a gofynnwch i'r plant: beth sy'n digwydd i'r anifeiliaid neu'r planhigion oedd yn gysylltiedig â'r anifail hwnnw? Er mwyn dangos ymhellach sut mae pob rhywogaeth yn rhyngddibynnol, gosodwch senario e.e. "Mae tân gwyllt wedi dinistrio holl goed yr ardal." Dylai plant nodi y bydd y we fwyd yn torri os bydd rhan yn cael ei thynnu a bod pob rhywogaeth mewn gwe fwyd yn bwysig.

Yn olaf, gall pob grŵp gysylltu'r we, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol fel brigau neu ddefnyddio sialc i dynnu llun ar arwyneb tarmac. Dylai'r dysgwyr osod eu cardiau a gweithio allan i ba gyfeiriad mae'r egni'n llifo o bob peth byw, gan dynnu un neu fwy o saethau o bob peth byw i'r rhai sy'n bwydo arno. Mae'n haws dechrau gyda'r haul, ac yna planhigion. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn gallu adnabod a disgrifio'r broses o ddadelfennu a'i bwysigrwydd mewn ecosystemau.

### Gweithgaredd Ychwanegol

Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu llun pyramid egni gyda sialc neu gan ddefnyddio ffyn a chynnwys enghreifftiau o gynhyrchwyr (planhigion) yn yr adran waelod, wedi'i ddilyn gan ddefnyddwyr cynradd (llysysyddion), defnyddwyr eilaidd (hollysyddion/cigysyddion) ac uwch ysglyfaethwyr ar y brig.

# Gweithgaredd 7

## Dadl Ailgyflwyno Afancod

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn ystyried manteision ac anfanteision ailgyflwyno afanc yn eu hardal leol. Byddant yn cymryd rôl gwahanol aelodau o'r gymuned, gan ystyried y materion moesegol a moesol y gall ailgyflwyno rhywogaeth eu codi.

Cyfleoedd i ddysgwyr:

- Chwarae rôl gwahanol aelodau o'r gymuned
- Cyflwyno dadl
- Ystyried gwahanol safbwyntiau

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.<br>Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |
| **Y Dyniaethau** | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Proffil Afancod Cymru Adnodd 6-12
- Adnodd 19 - O blaid/Yn erbyn
- Adnodd 20 - Cardiau Rôl
- Adnodd 21 – Dadl Ailgyflwyno

### Geirfa

Difodiant
Poblogaeth
Ysglyfaethwyr
Ailgyflwyno
Rhywogaeth
Cynefin





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Pwy fyddai ynghlwm ag ailgyflwyno afancod?
A oes manteision i ailgyflwyno afancod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
Sut gallwch chi chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau yn eich cymuned?

### Gweithgaredd

Gofynnwch i'r dosbarth pam eu bod yn credu bod rhai anifeiliaid yn mynd yn brin a pha ffactorau sy'n cyfrannu at rywogaethau'n dod i ben. Gofynnwch i'r dysgwyr eich atgoffa o'r ffactorau a arweiniodd at ddiflaniad afancod yng Nghymru.

Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y datganiadau yn **Adnodd 19**, gan drefnu datganiadau 'o blaid' ac 'yn erbyn' ailgyflwyno afancod i Gymru.

Eglurwch i'r dysgwyr fod sefydliad cadwraeth bywyd gwyllt eisiau ailgyflwyno afancod i nant leol. Eglurwch y bydd cyfarfod cyngor yn yr ardal i drafod y cynnig, ac y byddan nhw'n chwarae rôl aelod o'r gymuned yn y cyfarfod.

Gofynnwch i bob pâr ddewis rôl o **Adnodd 20**. Bydd angen amser arnynt i ymchwilio i'w rôl ac ystyried pa effaith y gallai ailgyflwyno afanc ei gael arnynt. Efallai yr hoffent ddefnyddio **Adnodd 21** i ysgrifennu crynodeb sy'n cynnwys eu safbwynt a'u hymchwil.

Trefnwch 'gyfarfod cyngor' a rhowch gyfle i bob grŵp gyflwyno eu dadl o blaid neu yn erbyn ailgyflwyno afancod. Gall rhai rolau fod yn ddiduedd. Dylai cadeirydd (athro) alw'r cyfarfod i drefn a chyflwyno'r gwahanol gynrychiolwyr, gan sicrhau bod siaradwyr yn cadw at amser penodol ac yn siarad yn y drefn gywir. Dylai'r cynrychiolwyr cadwraeth bywyd gwyllt agor gyda manylion y cynnig. Ble? Pryd? Sut? Dylid neilltuo hyd at 2 funud i gyflwyno gyda munud ychwanegol i ateb cwestiynau gan aelodau eraill o'r gymuned.

Ar ddiwedd y cyfarfod, gall dysgwyr bleidleisio i weld a fyddent yn cefnogi ailgyflwyno afancod yn yr ardal arfaethedig. Trafodwch y canlyniadau gyda'r dysgwyr. Beth yw'r anawsterau gyda materion fel hyn?

### Gweithgaredd Ychwanegol

Gall dysgwyr ysgrifennu erthygl papur newydd neu flog i rannu canlyniadau'r cyfarfod, neu ysgrifennu dadl gytbwys, gan gyflwyno dwy ochr y ddadl yn deg.

# Gweithgaredd 8
## Hanes a chwedlau Afancod

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn ystyried sut mae afancod wedi cael eu portreadu yn y gorffennol. Bydd dysgwyr yn creu eu creadur afon eu hunain.

Cyfleoedd i ddysgwyr:
- Ystyried sut mae afancod wedi cael eu cynrychioli mewn celf a llenyddiaeth
- Myfyrio ar yr hyn maen nhw'n ei wybod am afancod
- Creu eu creadur afon eu hunain, gan ystyried ymddangosiad, nodweddion a sut mae wedi addasu i'w gynefin

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru


| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Y Dyniaethau** | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. |
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.<br>Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd. |

### Adnoddau

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Clip fideo: youtu.be/yhws8tOcrC4
- Adnodd 11 - Mythau a Chwedlau Afancod
- Adnodd 22 - Chwedl Llyn yr Afanc
- Adnodd 23 - Creadur Afon
- Deunyddiau naturiol
- Clai neu does.

### Geirfa

Argae
Gwâl
Cynefin
Rhywogaeth
Creadur
Portreadu
Nodweddion





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Sut mae'r afanc wedi cael ei bortreadu yn y gorffennol? Pam?
Sut olwg sydd ar eich creadur afon? Allwch chi ddisgrifio ei nodweddion?
Sut mae creadur yr afon wedi addasu i'w chynefin?

### Gweithgaredd

Mae'r afanc i'w weld mewn nifer o chwedlau Cymreig. Gweler **Adnodd 11**. Fe'u disgrifir mewn sawl ffordd, ar ffurf anghenfil dŵr brawychus, pysgodyn, crocodeil a hyd yn oed afanc enfawr. Ceir y cyfeiriad llenyddol cynharaf at yr afanc mewn cerdd gan Lewys Glyn Cothi, bardd Cymraeg o'r 15fed ganrif.

Rhannwch **Adnodd 11 a 22** a gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut mae'r afanc wedi'i bortreadu mewn chwedlau, llenyddiaeth a barddoniaeth. Ydyn nhw'n gallu meddwl am ansoddeiriau i ddisgrifio'r darlun o afanc gan Lleucu Gwenllian yn **Adnodd 22**?

Rhannwch y clip fideo - youtu.be/yhws8tOcrC4. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod a ydyn nhw'n credu bod afancod wedi'u cynrychioli'n deg yn y gorffennol? Pam maen nhw'n credu eu bod wedi cael eu portreadu fel hyn?

Rhannwch **Adnodd 23** ac anogwch y dysgwyr i greu eu creadur afon eu hunain. Dylent ystyried yr hyn y maent wedi'i ddysgu am afancod yn eu cynefin naturiol fel sail ar gyfer dylunio eu creaduriaid afon eu hunain.

Gall agweddau i'w hystyried gynnwys:
Beth yw maint y creadur?
Beth mae'n ei fwyta? Pam?
Ym mha gynefin mae'n byw? Ble mae'n cysgodi?
Sut mae wedi addasu i'r amgylchedd?
Sut mae'n amddiffyn ei hun? Pwy yw ei ysglyfaethwr?
Beth yw enw ei rywogaeth?

Darparwch ddeunyddiau modelu naturiol i'r dysgwyr, iddynt greu eu creadur afon newydd, yn seiliedig ar eu dyluniad. Pan fyddant wedi cwblhau eu gwaith, gofynnwch i'r dysgwyr werthuso eu model eu hunain a model eu partner. A allant addasu eu model i'w wella? Beth fyddai'n digwydd pe bai eu creaduriaid yn cwrdd â'i gilydd?

### Gweithgaredd Ychwanegol

Gallai eu creadur afon fod yn sbardun ar gyfer ysgrifennu stori, cofnod dyddiadur, portread neu gerdd. Anogwch y dysgwyr i fod mor greadigol ag y gallant.

# Gweithgaredd 9
## Bioamrywiaeth

Yn y gweithgaredd hwn, gofynnir i ddysgwyr greu helfa, gan gynnwys rhywogaethau y gellir eu canfod ar dir yr ysgol i'w rhannu ag eraill. Fe fyddan nhw hefyd yn ystyried ffyrdd o ddenu bywyd gwyllt i dir yr ysgol.

Cyfleoedd i ddysgwyr:
- Darganfod yr amrywiaeth o rywogaethau sy'n bodoli yn yr ardal
- Datblygu a gweithredu syniadau ar sut i gynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol
- Cydweithio fel rhan o grŵp

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |
| **Iechyd a Lles** | Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. |

### Adnoddau
- Ardal ddysgu awyr agored
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Siartiau adnabod planhigion ac anifeiliaid
- Ap *Seek* gan iNaturalist
- Adnodd 12
- Adnodd 24 - Helfa Sborion

### Geirfa

Tiriogaeth
Gwâl
Bioamrywiaeth
Amgylchedd
Allweddol
Rhywogaeth





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Pa rywogaethau sydd ar dir yr ysgol?
Sut allwch chi wella amgylchedd ffisegol yr ysgol i ddenu bywyd gwyllt lleol?
Beth fyddai ei angen arnoch chi? Sut allwch chi gyflawni hyn?

### Gweithgaredd

Trafodwch bwysigrwydd bioamrywiaeth gyda'r dysgwyr. Atgoffwch hwy fod afancod yn rhywogaeth allweddol, a'u bod yn gallu cyfrannu at gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau ac ecosystemau sy'n bodoli mewn ardal. Gweler **Adnodd 12**.

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu pa rywogaethau maen nhw'n credu y gallant ddod o hyd iddyn nhw ar dir yr ysgol? Ble fydden nhw'n dod o hyd iddyn nhw?

Gan ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch yr ysgol mewn perthynas â'r awyr agored a ddefnyddir, gofynnwch i'r dysgwyr fynd allan mewn grwpiau o 2-4, i ddod o hyd i rywogaethau amrywiol o fewn tir yr ysgol y gellid eu cynnwys mewn helfa rhywogaethau.

Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu llun neu enwi gwahanol rywogaethau yn y sgwariau gwag a ddarperir yn **Adnodd 24**. Gall y rhain gynnwys amrywiaeth o anifeiliaid neu blanhigion, fel pryfed, blodau, coed, adar, ac ati.

Gallai dysgwyr ddefnyddio siartiau adnabod neu ddefnyddio technoleg adnabod delweddau fel yr ap Seek gan iNaturalist i helpu i adnabod planhigion ac anifeiliaid y maent yn dod ar eu traws.

Unwaith y bydd y grwpiau wedi gorffen creu eu helfa rhywogaethau, gofynnwch i'r grwpiau gyfnewid eu gwaith gyda grŵp arall. A allant ddod o hyd i'r holl rywogaethau gwahanol ar yr helfa rhywogaethau o fewn amser penodol? Ble ddaethon nhw o hyd iddynt?

Gofynnwch i'r dysgwyr awgrymu ffyrdd o annog bywyd gwyllt i ymweld â thir yr ysgol. Sut y gellid gwella amgylchedd yr ysgol a chynyddu bioamrywiaeth? Ydyn nhw'n gallu awgrymu ffyrdd o roi eu syniadau ar waith? Gallai hyn gynnwys creu blychau nythu, gwestai chwilod, mannau bwydo neu ffynonellau dŵr.

### Gweithgaredd Ychwanegol

Beth am gymryd rhan mewn prosiect gwyddoniaeth dinasyddion, fel Gwylio Adar yr Ardd yr RSPB rspb.org.uk/fun-and-learning/for-teachers/schools-wild-challenge/activities/big-schools-birdwatch/ neu Arolwg Chwilio Chwilod OPAL imperial.ac.uk/opal/surveys/bugscountsurvey/.

# Gweithgaredd 10
## Gêm Afanc Awyr Agored

Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn chwarae gêm awyr agored syml, cyn cael eu herio i greu a chynnal eu gêm awyr agored eu hunain gyda'u dosbarth, yn ymwneud ag afancod.

Cyfleoedd i ddysgwyr:
- Gweithio gydag eraill fel rhan o dîm
- Datblygu rhedeg, cyflymder ac ystwythder
- Cyfathrebu, cydweithio a datrys problemau

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| **Iechyd a Lles** | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes. |
| **Mathemateg a Rhifedd** | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. |

### Adnoddau

- Dysgu yn yr awyr agored
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Cyfeirlyfrau
- Brigau

### Geirfa

Tiriogaeth
Cyfathrebu
Cyfarwyddiadau
Strategaeth
Addasu
Ail-greu
Gwahodd





### Cwestiynau/pwyntiau trafod

Pa ddeunyddiau fydd eu hangen arnoch chi? Pam?
Pa strategaethau wnaethoch chi eu defnyddio wrth chwarae'r gêm? Allech chi roi cynnig ar unrhyw beth arall?
Oes angen i chi wneud unrhyw addasiadau i'r gêm? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

### Gweithgaredd

Mewn ardal awyr agored fawr, rhowch ddigon o frigau ar y ddaear fel bod o leiaf ddau ar gyfer pob plentyn.

Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp, sef argaeau a gwalau. Eglurwch y bydd angen i'r argaeau osod dwy ffon yn gyfochrog (=) i greu 'argae', a bydd angen i'r gwalau greu croes (x) gyda dwy ffon i gynrychioli 'gwâl'. Atgoffwch y dysgwyr mai dim ond un ffon ar y tro y dylid ei symud, ac na allan nhw gymryd ffyn o argae/wâl sydd eisoes wedi'i greu. Y tîm sydd wedi creu'r nifer fwyaf o argaeau neu walau pan nad oes ffyn unigol ar ôl, sy'n ennill.

Nesaf, addaswch y gêm trwy ganiatáu i bob tîm newid argaeau neu walau ei gilydd, yn dibynnu ar ba rai ydyn nhw, e.e. gall yr argaeau (=) newid gwâl (x) yn argae. Y tîm sydd â'r nifer fwyaf o walau neu argaeau ar ddiwedd amser penodol, e.e. 30 eiliad, sy'n ennill. Ydy'r gêm hon yn eu hatgoffa o gêm arall? Efallai y bydd y dysgwyr yn cysylltu'r gêm hon â 'Cwpanau a Soseri'.

Mewn grwpiau o 4-6, heriwch y dysgwyr i ddylunio a chynnal gêm awyr agored ar gyfer eu dosbarth. Gallant greu eu gêm eu hunain neu ail-greu gêm y maent eisoes yn gyfarwydd ag ef. Sut y gellir cysylltu'r gêm ag afancod?

Atgoffwch y dysgwyr y bydd angen iddyn nhw rannu cyfarwyddiadau clir gyda'u dosbarth cyn iddyn nhw roi cynnig ar y gêm. Sut byddan nhw'n esbonio'r gweithgaredd? Pa ddeunyddiau fydd eu hangen arnynt? Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio deunyddiau naturiol.

Gall gemau fel tag, cuddio, Mae Seimon yn Dweud, gemau tag cynffon, a thag ysglyfaethwr/ysglyfaeth oll gael eu haddasu'n hawdd.

### Gweithgaredd Ychwanegol

Beth am anfon gwahoddiadau i ddosbarth arall i ddod i chwarae'r gemau newydd? Cofiwch roi gwybod iddynt ble, pryd a beth fydd angen iddynt ddod gyda nhw.

# Adnodd 1 - Grid GED

Ymunwch â mi i ddarganfod mwy am afancod yng Nghymru...



| G | E | D |
|---|---|---|
| Gwybod - Beth ydw i'n ei wybod? | Eisiau gwybod - Beth ydw i eisiau ei wybod? | Wedi dysgu - Beth ydw i wedi ei ddysgu? |
| | | |

# Adnodd 2 - Cysylltiadau



...pâr o ffliperi



...pâr o gogls nofio




...llyw cwch

Gyda phartner, trafodwch yr hyn y credwch sydd gennyf yn gyffredin â'r anifeiliaid neu'r eitemau yn y ffotograffau hyn ...





...llif gadwyn




...llygoden




...ystlum


# Adnodd 3 - Masg Afanc

1.






2.




# Adnodd 4 - Coron Afanc




# Adnodd 5 - Coron Afanc gam wrth gam


1.





2.




3.



4.



5.



# Afancod yng Nghymru





### Cwestiynau

Beth yw anifail cyfnosol?

Pa mor hir ydych chi'n credu y gall afanc aros o dan y dŵr?

**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver
wildlifetrusts.org/saving-species/beavers
scottishwildlifetrust.org.uk/our-work/our-projects/scottish-beavers/
beavertrust.org/

## Addasu

Cnofilod yw afancod, grŵp o famaliaid sy'n cynnwys llygod, llygod mawr ac anifeiliaid cnoi bach eraill. Fel pob cnofil, mae dannedd afanc yn parhau i dyfu trwy gydol eu bywyd.

Mae dwy rywogaeth o afanc yn y byd: Afanc Gogledd America (*Castor canadensis*) ac Afanc Ewrasiaidd (*Castor fiber*). Er eu bod yn rhywogaethau gwahanol, maent bron yr un fath ym mhob ffordd.

Mae afancod yn paru am oes ac yn cael un torllwyth o rai bach y flwyddyn. Bydd afanc bach yn aros gyda'i deulu nes ei fod tua 2-3 oed.

Mae afancod yn byw mewn teuluoedd, yn nodweddiadol yr oedolion a hyd at ddwy genhedlaeth o epil. Mae'r teuluoedd yn amddiffyn eu tiriogaethau. Bydd afanc yn taro ei gynffon ar ddŵr i rybuddio afancod eraill rhag peryg. Mae afancod yw byw am oddeutu 10 mlynedd neu fwy.


Mae afancod yn gwybod sut i gerdded a nofio pan gânt eu geni. Mae ganddyn nhw ddwy haen o ffwr i gadw'n gynnes. Mae ganddynt orchudd oren ar eu dannedd i'w hamddiffyn rhag difrod.

Mae afancod yn anifeiliaid cyfnosol, yn actif yn bennaf gyda'r wawr a pan fo hi'n nosi. Maent yn lled-ddyfrol ac mae ganddynt lawer o nodweddion sy'n eu helpu i nofio a chasglu bwyd o dan y dŵr.

Mae afancod yn treulio llawer o'u hamser yn edrych ar ôl eu hunain, gan gadw eu ffwr mewn cyflwr da i sicrhau ei fod yn dal dŵr ac i helpu i gadw'n gynnes. Mae ganddyn nhw gynffon siâp padl gref sy'n eu helpu i nofio a thraed cefn gweog i'w helpu i nofio drwy'r dŵr. Mae ganddyn nhw hefyd bâr ychwanegol o amrannau sy'n eu helpu i weld o dan y dŵr.

# Afancod yng Nghymru







## Hanes

Mae tystiolaeth gynhanesyddol o afancod yng Nghymru yn cynnwys esgyrn afancod, megis penglogau a dannedd, ffosilau a phren wedi'i gnoi gan afancod.

Ar ôl yr Oes Iâ diwethaf, roedd Afancod Ewrasiaidd yn gyffredin ledled Cymru. Mae llenyddiaeth, cofnodion hanesyddol ac enwau lleoedd yn ymwneud ag afancod yn awgrymu hyn.

Yn y 10fed ganrif, mae Hywel Dda, Brenin Cymru yn nodi yn y Gyfraith fod crwyn afanc yn freintiau brenhinol. Y cyfreithiau hyn oedd y cofnod ysgrifenedig cyntaf ynghlwm ag afancod yng Nghymru. Mae cofnodion ysgrifenedig o'r 12fed Ganrif yn dweud bod afancod ar afon Teifi, yng Nghilgerran yn Sir Aberteifi.

Oherwydd gor-hela gan bobl am eu ffwr, eu cig a'u chwarren arogl, daeth afancod i ben yng Nghymru erbyn yr Oesoedd Canol. Defnyddiwyd eu côt gynnes, drwchus i wneud hetiau gwrth-ddŵr. Defnyddiwyd castoreum o'r chwarren arogl ar waelod cynffon afancod fel meddyginiaeth gyffredinol neu boen laddwr.

Gallai colli cynefinoedd fod wedi cyfrannu at ddiflaniad afancod hefyd.

Erbyn diwedd y 19eg ganrif, dim ond tua 1,200 o afancod oedd ar ôl ar draws Ewrasia. Roeddent yn bodoli yn bennaf yn Norwy, yr Almaen, Ffrainc a Belarus. Fodd bynnag, er eu bod bron a diflannu, newidiwyd hyn trwy gyfres o fesurau cadwraeth, gan gynnwys amddiffyniad cyfreithiol ac ailgyflwyno afancod i dros 25 o wledydd Ewropeaidd.

Heddiw, mae afancod yn ôl mewn sawl ardal ar draws Prydain, gan gynnwys rhannau o'r Alban, Lloegr a Chymru.

**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver
wildlifetrusts.org/saving-species/beavers
scottishwildlifetrust.org.uk/our-work/our-projects/scottish-beavers/
beavertrust.org/

# Afancod yng Nghymru





**Cwestiynau**

Beth mae afancod yn ei fwyta?

Beth yw llysysyddion, hollysyddion a chigysyddion?

**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver
wildlifetrusts.org/saving-species/beavers
scottishwildlifetrust.org.uk/our-work/our-projects/scottish-beavers/
beavertrust.org/

## Deiet

Llysysyddion yw afancod ac mae'n well ganddynt fwyta dail, perlysiau, rhisgl, brigau, gwreiddiau a phlanhigion dŵr. Yn groes i'r hyn mae llawer yn ei gredu, nid ydynt yn bwyta pysgod.

Mae diet afancod yn newid mewn gwahanol dymhorau. Yn ystod misoedd yr haf maent yn bwyta glaswellt, dail a phlanhigion dŵr. Yn y gaeaf, maen nhw'n bwyta rhisgl coed o goed fel aethnenni, helyg, bedw a chriafol.

Mae afancod yn torri coed a llwyni llydanddail i gyrraedd y canghennau uchaf i'w bwyta yn ystod y gaeaf ac er mwyn adeiladu eu cartrefi ac argaeau.

Os bydd angen, gellir atal afancod rhag niweidio coed trwy ffensio, rhoi paent tywod ar y coed, neu ddefnyddio rhwyll wifrog o amgylch boncyffion unigol.

Yn ystod misoedd y gaeaf, mae afancod yn storio bwyd o dan ddŵr mewn storfa. O ganlyniad, nid yw afancod yn gaeafgysgu yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae afancod yn chwilota'n agos at ddŵr, fel arfer tua 20 metr o ymyl y dŵr. Maent yn adeiladu argaeau a chamlesi i greu amodau byw addas ac i ddarparu llwybrau i ac o ffynonellau bwyd.

Mae afancod yn aml yn bwyta yn eu cartrefi ac mae ganddynt storfa fwyd y tu allan i'w gwâl i'w cadw i fynd yn ystod misoedd y gaeaf.

Gall afancod fwyta cnydau amaethyddol, gan gynnwys india-corn a gwreiddiau fel betys siwgr pan fydd y rhain yn cael eu tyfu wrth ymyl cyrsiau dŵr. Gall opsiynau rheoli ddatrys sefyllfaoedd fel y rhain, megis defnyddio ffensys rhwyll neu drydan.

Adnodd 9 - Afancod Cymru

# Afancod yng Nghymru





**Dal i fyny gyda'r teulu afancod yng Nghors Dyfi:**

youtube.com/playlist?list=PLDfZStW-stoZOqwk2hwt8ECtrAUec6r5

**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver
wildlifetrusts.org/saving-species/beavers
scottishwildlifetrust.org.uk/our-work/our-projects/scottish-beavers/
beavertrust.org/

## Cynefinoedd a Chartrefi

Mae afancod yn hoffi byw wrth ymyl dŵr. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn symud yn haws mewn dŵr. Yn gyffredinol, nid ydynt yn hoffi bod mwy nag 20 metr i ffwrdd o ddŵr. Mae fel arfer yn fwy diogel i afancod deithio ar ddŵr nag ar dir. Maent yn araf ar dir ac mae eu golwg yn wael. Gallant aros o dan ddŵr am hyd at 15 munud.

Mae maint eu tiriogaeth yn dibynnu ar argaeledd bwyd, ond mae fel arfer yn amrywio rhwng 1-7km. Mae 95% o'u gweithgaredd fel arfer o fewn 5m i ymyl y dŵr, gyda 98% o'u gweithgaredd o fewn 20m.

Mae afancod yn marcio eu tiriogaethau â chastoreum, o chwarren arogl ar waelod eu cynffon.

Mae afancod yn adnabyddus am dorri coed, a ddefnyddir ar gyfer adeiladu a bwydo.

Mae cartref afanc yn cael ei alw'n wâl (lodge). Fel arfer mae tua 1-2m o uchder ac mae ganddo fynedfa ac allanfa tanddwr cyfrinachol. Weithiau bydd dyfrgwn yn symud i mewn i gabanau afancod gwag. Mae llygod y dŵr yn hapus i rannu gwâl gydag afancod.

Mae gan afancod gamlesi i fynd o un diriogaeth i'r llall.

Mae afancod yn adeiladu eu hargaeau eu hunain o fwd a brigau. Gall eu hargaeau helpu i lanhau afonydd a llynnoedd. Mae afancod fel arfer yn adeiladu eu hargaeau mewn nentydd neu lednentydd llai. Gallant hefyd wneud eu ffordd i orlifdiroedd isel.

Mae afancod bellach yn cael eu hamddiffyn yn y rhan fwyaf o wledydd, ac mae yn erbyn y gyfraith eu lladd, eu dal â thrap neu aflonyddu ar y mannau y maent yn magu.

# Afancod yng Nghymru







**Dal i fyny gyda'r teulu afancod yng Nghors Dyfi:**

youtu.be/Cz_PyG6W1u8

youtu.be/9cS3zatFP88



**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver

## Arwyddion Afancod

Mae afancod yn anifeiliaid cyfnosol ac nid ydynt i'w gweld yn aml yn ystod y dydd. O ganlyniad, gall fod yn anodd gweld afancod yn y gwyllt.

Er mwyn darganfod ble mae afancod yn byw, bydd angen i chi chwilio am arwyddion eu bod gerllaw. Gallai hyn gynnwys:

Gwalau afancod - mae afancod yn adeiladu eu cartrefi, a elwir yn wâl (*lodge*), trwy bentyrru brigau ar lan pwll neu afon.

Argae Afancod - mae afancod yn adeiladu argaeau ar draws nentydd, gan ddefnyddio brigau, canghennau, boncyffion, cerrig, mwd a phlanhigion. Gall hyn godi lefel y dŵr a throi nant yn bwll.

Traciau - Gellir dod o hyd i draciau afancod yn y mwd ger eu pwll. Mae ganddyn nhw draed blaen bach a thraed ôl gweog mwy.


Coed wedi colli'i rhisgl - Mae afancod yn cnoi rhisgl oddi ar foncyffion coed, gan droi eu pennau i'r ochr a dod â'u pedwar blaenddant at ei gilydd. Trwy gnoi, maent yn gwneud marciau dannedd yn y pren. Efallai y bydd naddion pren hefyd ar ôl.

Camlesi afancod - Mae afancod yn cloddio ffosydd a chamlesi fel y gallant deithio o le i le. Bydd y rhain yn mynd o'u pwll i ddolydd neu goedwigoedd cyfagos.

Twmpathau arogl - Mae afancod yn marcio eu tiriogaeth ag arogleuon.

Storfa (*cache*) afancod - bydd afancod yn torri canghennau i lawr ac yn eu storio ar waelod pwll ger eu gwâl. Yn ystod misoedd y gaeaf, byddant yn bwyta'r rhain.

# Afancod yng Nghymru







### Chwedlau Afanc

Fayres, C. (2021) *Chwedlau Cymru a'i straeon hud a lledrith.* Scholastic.

Dafydd, M. (2019) *Deg o Chwedlau Dyffryn Conwy.* Gwasg Carreg Gwalch.




**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofWales/The-Legend-of-the-River-Conwy-Afanc/
geograph.org.uk/photo/404509
llangorsetri.wordpress.com/the-afanc/
youtube.com/watch?v=V2EJ2H9y9S8

## Mythau a Chwedlau Afanc

Cyfeirir at yr Afanc fel anghenfil llyn chwedlonol ym mytholeg Cymru. Yn ôl chwedlau, byddai'r afanc yn ymosod ac yn difa unrhyw un a fyddai'n mynd i mewn i'w ddyfroedd. Cânt eu disgrifio mewn llawer o wahanol ffyrdd; ar ffurf anghenfil dŵr brawychus, pysgodyn, crocodeil a hyd yn oed afanc enfawr.

Mae Bedd-yr-Afanc yn leoliad hanseyddol. Y bedd yw'r unig fedd oriel (math o fedd megalithig) sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Efydd yng Nghymru ac mae'n dyddio o tua 1500CC. Mae dwy res o gerrig cyfochrog wedi goroesi. Yn ôl y chwedl roedd yr Afanc yn arfer byw mewn pwll ger Pont Brynberian, Sir Benfro, cyn iddo gael ei ddal, ei ladd ac yna ei gladdu o dan y twmpath hwn ar ochr y bryn.

Mae'r cofnod llenyddol cynharaf yr ydym yn gwybod amdano yn cyfeirio at afanc Llangors mewn cerdd gan y bardd Cymraeg o'r 15fed ganrif, Lewys Glyn Cothi.

Yr avanc er ei ovyn
Wyv yn llech ar vin y llyn;

Mae'r afanc yn ymddangos yn chwedl Afanc Afon Conwy, lle cafodd ei ddenu o bwll yn afon Conwy a'i arwain at Llyn Ffynnon Las (Llyn Glaslyn), ymhell i ffwrdd ar Yr Wyddfa. Yn ôl y chwedl, yr afanc oedd yn gyfrifol am achosi llifogydd ac am ladd plentyn bach, pobl ac anifeiliaid. Cafodd yr afanc ei hudo allan o'r pwll gan ferch ifanc cyn i gyd-bentrefwyr rwymo'r creadur mewn cadwyni. Yn gynddeiriog, fe'i llusgwyd gan ychen i lyn Cwm Ffynnon.

Yn yr un modd, yn ôl y chwedl, cafodd pobl Aberdyfi eu poenydio gan anghenfil dŵr ffyrnig o'r enw 'Yr Afanc', Llusgodd y Brenin Arthur yr afanc o'r llyn gan ddefnyddio cadwyn hud ynghlwm wrth ei geffyl.

# Afancod yng Nghymru



Argae Afanc
© ALICIA LEOW-DYKE



**Cwestiynau**

Beth yw rhywogaethau allweddol?

Sut mae afancod yn gwarchod yr amgylchedd?

**Dolenni Defnyddiol:**

northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/welshbeaverproject
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-explorer/mammals/beaver
wildlifetrusts.org/saving-species/beavers
scottishwildlifetrust.org.uk/our-work/our-projects/scottish-beavers/
beavertrust.org/

## Manteision Amgylcheddol

Mae afancod yn rhywogaeth allweddol. Gallant ddarparu ystod o fanteision amgylcheddol a helpu i addasu ecosystem gyfan er budd rhywogaethau eraill. Cyfeirir atynt yn aml fel 'peirianwyr ecosystem' oherwydd eu gallu i addasu'r cynefinoedd a'r tirweddau y maent yn byw ynddynt trwy docio coed, bwydo a chreu argaeau.

Gall pyllau sy'n cael eu creu gan argaeau hybu tyfiant planhigion dŵr, a chreu cynefin i infertebratau, sydd yn ei dro yn annog mwy o fywyd amffibiaid a mamaliaid - gan gynnwys dyfrgwn, llygoden y dŵr, broga, madfall y dŵr a gwas y neidr.

Mae tocio coed a llystyfiant arall yn agor y canopi, gan greu amrywiaeth pellach o gynefinoedd. Mae pren marw a lefelau golau uwch yn annog tyfiant planhigion a phlanhigion dŵr, yn ogystal â niferoedd cynyddol o infertebratau. Mae hyn yn rhoi budd pellach i amrywiaeth eang o rywogaethau gan gynnwys adar fel y crëyr glas, hwyaid, cnocell y coed a glas y dorlan.

Newid hinsawdd yw'r her fwyaf y mae cenedlaethau'r dyfodol yn ei wynebu, ac mae afancod eisoes yn chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Gall argaeau sy'n cael eu creu gan afancod helpu i leihau llifogydd, trwy reoli llif y dŵr a lliniaru llifogydd i lawr yr afon. Maent yn hidlo ac yn glanhau'r dŵr, a all wella ansawdd y dŵr. Mae dŵr sy'n llifo dros argaeau yn cael ei ocsigeneiddio ac y mae llaid llygredig yn cael ei ddal yn yr argae, syn gwella ansawdd dŵr, ac yn arwain at gynnydd mewn infertebratau.


Gall cynefinoedd corsiog a grëir gan afancod ddal carbon. Mae cors yn tynnu carbon deuocsid allan o'r atmosffer a'i drawsnewid yn blanhigion byw a phridd yn llawn carbon.

# Adnodd 13 - Her Argae Afanc

Allwch chi adeiladu argae fel fi? Dyluniwch, adeiladwch a phrofwch eich sgiliau adeiladu.

Ar eich marciau... barod...adeiladwch!





**Byddwch angen:**

- Cynhwysydd bas, hirsgwar, sy'n dal dŵr
- Jwg/can dyfrio
- Amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu argae naturiol
- Amserydd/oriawr



© YMDDIRIEDOLAETH NATUR GOGLEDD CYMRU

## Cyfarwyddiadau Cam-wrth-Gam

1. Ewch allan, a gosodwch gynhwysydd ar ongl, gydag un ochr yn uwch na'r llall, neu beth am gloddio eich nant fach eich hun.
2. Arllwyswch ddŵr o'r pen uchaf a'i wylio'n llifo i lawr a chasglu yn y pen arall.
3. Casglwch ddeunyddiau naturiol ar gyfer adeiladu argaeau. Pa ddeunyddiau fyddwch chi'n eu defnyddio?
4. Adeiladwch argae ar draws canol eich 'nant'. Sut byddwch chi'n adeiladu eich argae?
5. Arllwyswch ddŵr yn araf o'r pen uchaf. Pa mor hir mae'n ei gymryd i'r dŵr gyrraedd y pen arall? A yw'r dŵr i gyd yn llifo drwodd? Ydy lefel y dŵr yn newid uwchben yr argae? A dorrodd y dŵr eich argae?
6. Allwch chi wella eich argae fel ei fod yn dal dŵr am gyfnod hirach? Ceisiwch ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau a gwahanol gyfuniadau i ailadeiladu a phrofi eich argae. Amserwch pa mor hir mae'n ei gymryd gan ddefnyddio cyfuniadau gwahanol.
7. Rhowch ychydig o ddail wedi'u malu yn eich dŵr, ac arllwyswch i mewn o ben uchaf eich llethr. Allwch chi ddefnyddio eich argae i lanhau'r dŵr? Beth sy'n digwydd? Ydy'r dail yn gallu mynd trwodd?

# Adnodd 14 – Gêm Fwrdd Afancod



# Adnodd 15 - Cyfarwyddiadau Gêm Fwrdd

Mae'n rhaid i afancod adael tiriogaeth eu rhieni pan maent tua dwy flwydd oed.

Ewch ati i greu eich cardiau eich hun i ddangos y peryglon a'r bygythiadau sy'n wynebu'r afancod ifanc hyn?





**Byddwch angen:**

- Cownteri
- Dis
- Adnodd 14 - Gêm Fwrdd
- Adnodd 17 - Cardiau Gweithgaredd Gwag
- Adnodd 16 - Cardiau Gêm



## Rheolau

- Mae'r gêm yn dechrau yng nghartref yr afancod (chwith uchaf)
- Rholiwch y dis a symudwch ar hyd y trac.
- Pan fyddwch chi'n glanio ar ♡ neu ! codwch gerdyn sy'n cyfateb, darllenwch ef yn uchel a dilynwch y cyfarwyddiadau.
- Pwy bynnag sy'n cyrraedd y diwedd yn gyntaf, sy'n ennill.

## Cyfarwyddiadau Cam wrth Gam

1. Copïwch y gêm fwrdd. (Wedi ei chwyddo i faint A3)
2. Ymchwiliwch i'r peryglon a all wynebu afancod ifanc pan fyddant yn symud o'u cartref i'r byd mawr.
3. Ewch ati i greu eich cardiau gwybodaeth eich hun am afancod (Adnodd 17). Bydd angen i chi greu 6 cherdyn positif a 10 cerdyn perygl (gweler Adnodd 16 am enghreifftiau). Rhowch y cardiau gorffenedig wyneb i lawr, a'u gosod ger y gêm fwrdd. Efallai y byddwch am roi ♡ neu ! ar gefn pob cerdyn.
4. Unwaith y byddwch wedi paratoi eich cardiau a'r bwrdd gêm, byddwch yn barod i chwarae.
5. Cofiwch gadw at y rheolau ac aros i gymryd eich tro yn amyneddgar. Rholiwch y dis a symudwch eich cownter eich hun ar hyd y trac yn ofalus.
6. Mwynhewch!


# Adnodd 16 - Cardiau Gêm Afancod

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Blasus**<br>Rwyt yn mwynhau india-corn gae cyfagos. Rwyt yn gwneud cynnydd cyflym<br>**Ymlaen 3 cam** | **Glaw**<br>Mae'n bwrw glaw ac mae lefel y dŵr yn codi. Rwyt yn gwneud cynnydd da<br>**Ymlaen 1 cam** | **Sefyllfa anodd**<br>Rwyt yn sownd yn y mwd<br>**Yn ôl 1 cam** | **Potsiwr**<br>Mae rhywun yn saethu tuag atat yn anghyfreithlon! Rwyt yn plymio i'r dŵr i guddio<br>**Colli tro** |
| **Hylendid**<br>Rwyt wedi iro dy ffwr, ac yn nofio'n gyflymach.<br>**Ymlaen 1 cam** | **Llwybr byr**<br>Rwyt yn darganfod llwybr cyflymach ac yn gwneud cynnydd cyflym<br>**Ymlaen 3 cam** | **Dinas**<br>Dyma'r ffordd i'r ddinas - mae gennyt ofn bodau dynol<br>**Yn ôl i'r gyffordd ddiwethaf** | **Ffordd**<br>Rwyt angen croesi'r ffordd!<br>**Rholio eto**<br>1 - 3 Rwyt ti'n lwcus, ymlaen 1 cam.<br>4- 6 Mae car yn dy drawo, rwyt ti allan o'r gêm... |
| **Gwledd**<br>Rwyt ti'n dod o hyd i blanhigion ar lan yr afon ac yn nofio'n gyflymach<br>**Ymlaen 3 cam** | **Llwynog**<br>Mae llwynog yn dod o hyd iti, rwyt ti'n dianc yn ôl i'r dŵr.<br>**Yn ôl 2 gam** | **Afanc arall**<br>Mae afanc arall yn byw yn yr ardal yn barod, ac mae'n dy erlid i ffwrdd.<br>**Yn ôl 2 gam** | **Llwglyd**<br>Rwyt ti'n nofio mewn camlas ond does dim i'w fwyta<br>**Yn ôl i'r gyffordd ddiwethaf** |
| **Coed Helyg**<br>Rwyt yn mwynhau cnoi coed helyg. Gyda bo llawn, rwyt yn gwneud cynnydd cyflym<br>**Ymlaen 3 cam** | **Tymor sych**<br>Mae lefelau dŵr wedi gost-wng ac rwyt yn gwneud cynnydd araf<br>**Colli tro** | **Ci**<br>Mae ci yn ymosod arnat, rwyt yn dianc yn gyflym<br>**Yn ôl 3 cam** | **Coed**<br>Rwyt ti'n torri coeden i lawr, ond mae'n mynd yn sownd mewn coed eraill. Rwyt yn cael help gan afancod eraill.<br>**Colli tro** |

# Adnodd 17 - Cardiau Gêm Gwag

# Adnodd 18a - Cardiau Cysylltu

## Afanc




Mae afancod yn llysysyddion ac yn bwyta planhigion fel gwair a rhisgl coed.

## Tylluan




Mae tylluanod yn hollysyddion ac mae eu diet yn cynnwys mwydod, chwilod a mamaliaid bach.

## Mwyalchen




Mae mwyalchod yn hollysyddion, a byddant yn bwyta mwydod, pryfed cop, ffrwythau a hadau.

## Llwynog



Mae llwynogod yn hollysyddion. Byddan nhw'n bwyta infertebratau, ffrwythau, adar bach a mamaliaid.

## Ysgyfarnog




Llysysyddion yw sgwarnogod. Mae eu diet yn cynnwys dail, glaswellt ac aeron.

## Draenog




Mae draenogod yn hollysyddion a byddant yn bwyta pryfed, ffrwythau, llygod, brogaod ac adar bach.

## Mwydyn




Mae mwydod yn bwyta pridd, sy'n cynnwys gwreiddiau sy'n pydru, dail a thail anifeiliaid.

## Dyfrgi



Mamaliaid cigysol yw dyfrgwn. Maen nhw'n bwyta pysgod, infertebratau, adar bach a mamaliaid bach.


## Dŵr



Mae ecosystemau cyfan yn dibynnu ar ddŵr. Mae bywyd gwyllt, bodau dynol a phlanhigion angen dŵr i oroesi.


# Adnodd 18b - Cardiau Cysylltu

## Mochyn Daear



Mae moch daear yn hollysyddion ac yn bwyta mwydod, pryfed, mamaliaid bach, hadau ac aeron.

## Glöyn byw



Mae gloÿnnod byw yn llysysyddion. Maen nhw'n yfed neithdar o flodau. Fel lindys, maent yn bwyta llysiau gwyrdd a glaswellt deiliog.

## Gwair



Mae gweiriau'n cynhyrchu eu hegni eu hunain o olau'r haul. Mae angen dŵr a maetholion o'r pridd arnyn nhw i dyfu.

## Llyffant



Cigysyddion yw llyffantod. Maen nhw'n bwyta pryfed a gwyfynod, yn ogystal ag infertebratau fel mwydod.

## Barcud Coch




Mae Barcutiaid Coch yn gigysyddion ac yn sborionwyr. Maen nhw'n bwydo ar famaliaid bach fel cwningod, ysgyfarnogod, llygod, llygod ac infertebratau.

## Haul




Mae'r haul yn darparu ynni ar ffurf golau, a elwir yn ynni solar.

## Llygoden




Mae llygod yn hollysyddion. Maent yn bwyta planhigion, grawn, pryfed, rhisgl a hyd yn oed eraill anifeiliaid bach.

## Neidr y Gwair



Cigysyddion yw nadroedd y gwair. Maen nhw'n ysglyfaethu'n bennaf ar amffibiaid, fel brogaod neu lyffantod.

## Coed



Mae angen dŵr ar goed i oroesi. Maent yn cynhyrchu eu bwyd eu hunain trwy ffotosynthesis, gan ddefnyddio egni o olau'r haul.

# Adnodd 19 - O blaid/Yn erbyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gallai afancod sy'n cael eu cyflwyno o wledydd eraill gario clefydau a allai fod yn niweidiol i fywyd gwyllt Cymru. | Mae'n ddrud ailgyflwyno rhywogaethau. | Gallai ailgyflwyno afancod gynyddu lefelau twristiaeth yn yr ardal, a allai roi hwb i'r economi leol. | Gall argaeau a grëir gan afancod achosi llifogydd nad oes croeso iddynt mewn caeau ac ardaloedd o amgylch afonydd. |
| Mae afancod yn torri coed. Gall hyn agor canopi'r coetir gan ganiatáu i blanhigion eraill dyfu oherwydd gall golau haul ychwanegol gyrraedd y ddaear. | Mae gan fodau dynol ddyletswydd foesol i amddiffyn anifeiliaid. Mae afancod yn rhan o'n treftadaeth genedlaethol. | Gall afancod fwyta cnydau fferm a llysiau o gaeau cyfagos, fel india-corn. | Gall argaeau afancod lanhau dŵr a lleihau llygredd trwy ddal silt a storio gwaddod, maetholion a llygryddion yn eu pyllau. |
| Gall afancod leihau'r perygl o lifogydd drwy gynyddu gallu'r dirwedd i amsugno a chadw dŵr, sy'n lleihau'r llif brig i lawr yr afon. | Gall afancod fynd i'r afael â sychder drwy arafu llif y dŵr a chadw dŵr mewn corsydd. | Mae afancod yn rhywogaeth allweddol, a gallant hybu toreth o fywyd gwyllt yn eu cynefin, yn enwedig pryfed. | Gall argaeau afancod ddarparu mannau i bysgod ddodwy wyau yn ogystal â chuddfan rhag ysglyfaethwyr. |
| Weithiau gall argaeau afancod fod yn rhwystr i bysgod sy'n teithio i fyny'r afon. | Gall afancod helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae corsydd sy'n cael eu creu gan afancod yn sinciau carbon, sy'n cynyddu'r carbon sy'n cael ei storio yn yr ardal. | Mae coed wedi'u torri'n darparu cartrefi i infertebratau. | Gallai cynyddu lefel twristiaeth i ardaloedd lle mae afancod yn byw achosi mwy o broblemau llygredd a sbwriel. |

# Adnodd 20 - Cardiau Rôl Ailgyflwyno Afancod

| | | | |
|---|---|---|---|
| Perchennog Tir | Ffermwr | Pysgotwr | Aelod o'r cyhoedd |
| Cynghorydd Lleol | Rhywun sy'n gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru | Perchennog Gwesty | Gweithiwr ffordd a rheilffordd |
| Myfyriwr | Rhywun brwdfrydig dros fywyd gwyllt | Cyflogai Sefydliad Cadwraeth | Gweithiwr i Undeb Ffermio |
| Cerddwr | Dyn tân | Athro/awes | Coedwigwr |

# Adnodd 21 - Dadl Ailgyflwyno Afancod

Mae cyfarfod cyngor lleol wedi'i drefnu i aelodau'r cyhoedd gael gwybod mwy am y bwriad i ailgyflwyno afancod yn eich ardal.



**Beth yw eich rôl yn y gymuned?**

**Sut allai afancod effeithio arnoch chi?**

**Ydych chi'n credu bod afancod yn bwysig i'ch amgylchedd lleol?**

**Pa gwestiynau sydd gennych ar gyfer aelodau eraill y gymuned?**

# Adnodd 22 - Llyn yr Afanc

Dyma lun gan y darlunydd Cymraeg Lleucu Gwenllian.

Mae i'w weld yn y gyfrol **Deg o Chwedlau Dyffryn Conwy** gan Myrddin ap Dafydd. Mae'r afanc brawychus yn ymddangos yn y chwedl 'Llyn yr Afanc'.


Ydych chi'n meddwl ei fod yn ddarlun teg o afanc fel fi?



Gwyliwch y clip fideo:


youtu.be/yhws8t0crC4






# Adnodd 23 - Creadur Afon

Dyluniwch eich creadur afon eich hun. Disgrifiwch eich creadur a chynnwys ffeithiau am sut mae wedi addasu i fyw yn ei gynefin.



Ansoddeiriau: (e.e. sut mae'n edrych? Pa fath o bersonoliaeth sydd ganddo?)

Llun:



Sut mae'r creadur wedi addasu i'w gynefin? Ble gellir ei weld? Beth yw enw'r creadur? Pa effaith mae'n ei gael ar ei ardal/gymuned? Beth mae'n ei fwyta? A oes ganddo sgiliau arbennig?

Ffeithiau diddorol:

# Adnodd 24 - Helfa Sborion

1. Tynnwch lun neu enwch y gwahanol rywogaethau y gallwch ddod o hyd iddyn nhw ar dir yr ysgol yn y sgwariau gwag isod. Ffeiriwch eich gwaith gydag eraill.
2. Allwch chi ddod o hyd i'r holl rywogaethau gwahanol yn yr helfa isod? Ticiwch y blwch ger pob rhywogaeth wrth ichi ddod o hyd iddynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Ymweliadau Ysgol Prosiect Afancod Cymru

PROSIECT AFANCOD CYMRU
WELSH BEAVER PROJECT

Gall Prosiect Afancod Cymru hefyd gyflwyno allgymorth addysgol i ysgolion cynradd yng Nghymru, yn seiliedig ar y gweithgareddau yn y pecyn addysg Afancod yng Nghymru hwn. Cysylltwch â ni ar beaver.afanc@northwaleswildlifetrust.org.uk os hoffech chi ddarganfod mwy neu drefnu ymweliad ysgol* gan Brosiect Afancod Cymru.



© YMDDIRIEDOLAETH NATUR GOGLEDD CYMRU





© YMDDIRIEDOLAETH NATUR GOGLEDD CYMRU



*Noder y bydd ymweliadau ag ysgolion yn dibynnu ar argaeledd a ble bo capasiti'n caniatáu gan mai tîm bychan ydym, ond byddwn yn ymdrechu i'ch cefnogi os gallwn.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ynghyd ag aelodau, gwirfoddolwyr a chyda chefnogaeth rhwydwaith cynyddol o filoedd o bobl mewn cymunedau amrywiol, wedi ymrwymo i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae byd natur o bwys.

Rydym yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o 46 o Ymddiriedolaethau Natur ar draws y DU. Rydym yn ymgyrchu i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn frwd dros gadwraeth natur - ac rydym am i chi fod yn rhan ohono!


| | |
|---|---|
| **E-BOST** | **info@northwaleswildlifetrust.org.uk** |
| **FACEBOOK** | **northwaleswildlifetrust** |
| **GWEFAN** | **northwaleswildlifetrust.org.uk/cy** |
| **TWITTER** | **@North_Wales_WT** |
| **INSTAGRAM** | **@northwaleswildlifetrust** |



**Rhif Elusen Gofrestredig: 230772**
**Rhif Cwmni: 773995**


**Hawlfraint: Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru 2023**



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wildlife Trusts
**Wales**
Ymddiriedolaethau Natur
**Cymru**